

Dydd Nadolig

Cynhaliwyd Oedfa Gymun yn Capel Coch fore dydd Nadolig, ac unwaith eto daeth cynulleidfa gref ynghyd i ddathlu dyfodiad y Meseia yn blentyn bach y Nadolig cyntaf hwnnw ym Methlehem.

Bocs bwyd

Rydym yn dal i dderbyn bwydydd yn Capel Coch at Fanc Bwyd Caernarfon.

Clywsom lawer dros y misoedd diwethaf am y defnydd cynyddol a wneir o'r Banc Bwyd ar draws y wlad. Mae hwn wedi datblygu yn wasanaeth gwerthfawr ac yn gymorth mawr i deuluoedd ac unigolion sy'n cael trafferth o bryd i'w gilydd i brynu bwyd.

Gallwch roi'r bwydydd yn y bocs casglu sydd yng nghyntedd Capel Coch.

Ar y We Gwefan yr Ofalaeth

Cofiwch fod gan yr Ofalaeth wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am yr eglwysi a'u gwaith. Mae copi o *Gronyn* yn cael ei osod ar y wefan bob nos Sul, ac felly os na chawsoch gopi yn y capel am unrhyw reswm mae modd ei ddarllen ar y wefan. Yn syml iawn, chwiliwch am gronyn.org

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 14

5.00 p.m. - Mrs Nerys Griffiths

Ionawr 21

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ionawr 28

5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Dydd Sul, Ionawr 14: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Nerys Griffiths.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Ionawr 9: Bore Coffi rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Nos Fawrth, Ionawr 9: Y Gymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch yng nghwmni Mr Eifion Roberts.

Dydd Sul, Rhagfyr 16: Gwasanaethir yn yr oedfaon am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Ionawr 8: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ionawr 12: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 14: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Ionawr 11: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 14: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 14: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 14

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ionawr 21

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion Williams

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

IONawr 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 754: 07 Ionawr, 2018

Esgidiau

beibl.net yn gosod y peth fel hyn, 'Bydd y bariau ar dy giatiaiu o haearn a phres'. Boed i ni ddrysau neu giatiaiu cadarn i'n hamddiffyn rhag popeth a deflir yn ein herbyn.

Ond os trown eto at yr hen gyfieithiad, yr hyn a geir yma gan William Morgan yw, 'Haearn a phres fydd dan dy esgid di; ac megis dy ddyddiau, y bydd dy nerth'. Yma eto yn yr hen gyfieithiad, addewid sydd yn hytrach na dymuniad; addewid am esgidiau cryfion am ein traed. Pa lwybrau blin a chreigiog bynnag y bydd rhaid eu cerdded eleni, mae Duw wedi darparu i ni esgidiau cadarn i'n cadw'n ddiogel ar y daith.

Dyna'n cysur ar ddechrau'r flwyddyn, neu ar ddechrau'r daith newydd y mentrwn arni eleni. Duw ei hun sy'n gymorth i ni; Ef fydd yn amddiffynfa yn wyneb popeth a ddaw i'n bygwth a'n blino. Cerddwn yn hyderus eleni gan bwysu ar Dduw i'n cadw rhag baglu pan gawn ein temtio, i'n cadw rhag llithro yn wyneb gwyntoedd croesion, ac i'n cadw'n ddiogel ar lwybr gwasanaeth ac ufudd-dod iddo Ef ei hun.

Arswydwn wrth glywed am bobl yn mentro i'r mynyddoedd heb yr offer a'r dillad a'r esgidiau addas. Peidiwn ninnau chwaith â mentro ymlaen eleni heb baratoi at y daith. Ceisiwn ras a nerth Duw heddiw. Pwyswn arno bob dydd. A diolchwn am ei addewid sicr o esgidiau cadarn a nerth digonol ar gyfer angen pob dydd.

Yr un hen stori! Sawl gwaith glywsoch chi eiriau tebyg? 'Nid oedd y cerddwr wedi paratoi'n iawn ar gyfer y daith na'r tywydd na'r dirwedd'. Dywedwyd hyn eto rai dyddiau cyn y Nadolig wedi i'r hofrennydd godi un dyn oddi ar Grib Goch. Wn i ddim yn union pa offer neu ddillad nad oedd gan y dyn arbennig hwnnw; ond mae'n debyg mai'r peth mwyaf amlwg y dylai pawb ei gael cyn mentro allan yw esgidiau addas.

Wrth ddymuno i chi heddiw flwyddyn newydd dda, dyma fenthyca geiriau o Lyfr Deuteronomium (33:25): 'Bydded dy farrau o haearn a phres, a'th gryfder yn cydreddeg â'th ddyddiau'. Trwy ail ran yr adnod, dymunwn i'n gilydd nerth digonol ar gyfer pob dydd. Wyddom ni ddim beth a ddaw yn ystod y flwyddyn newydd, ond gallwn fod yn hyderus y cawn nerth Duw bob dydd a phob cam o'r daith. Oherwydd mae Duw wedi addo helpu a nerthu ei bobl. Ac os trown at yr un adnod yng nghyfieithiad William Morgan, mi welwn mai addewid sydd yma, 'megis dy ddyddiau, y bydd dy nerth'. Mi fydd nerth Duw yn cael ei roi i ni bob dydd, ac yn nyddiau cynnar y flwyddyn newydd diolchwn am hynny.

Ond beth am ran gyntaf yr adnod, 'Bydded dy farrau o haearn a phres'? Dymunwn ddiogelwch i'n gilydd ar ddechrau'r flwyddyn. Pa storm bynnag a ddaw yn ein herbyn a pha anawsterau bynnag a wynebwn eleni, dymunwn i'n gilydd amddiffyniad cadarn. Mae

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'O ARGLWYDD, Duw fy
iachawdwriaeth, liw dydd
galwaf arnat, gyda'r nos **BEIBL BYW**
deuaf atat. Doed fy ngweddi hyd atat, tro
dy glust at fy llef' (Salm 88:1-2).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones,
Bethel. Ni fydd Ysgol Sul.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r
gloch gan y Gweinidog. Nid oes Ysgol
Sul heddiw.

Cynhelir oedfa yn Nhalybont am 2.00 o'r
gloch. Nid oes Ysgol Sul heddiw.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Dymunwn wellhad buan i'n haelodau
sydd yn yr ysbyty neu a fu yn yr ysbyty
dros y gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn
Newydd:

Gair yn Gnawd

Nos Sul, Rhagfyr 17, cafwyd cyflwyniad
arbennig o'r Cantawd *Gair yn Gnawd* yn
Capel Coch.

Cymerwyd rhan gan aelodau a ieuencid
o Gapel Coch, Nant Padarn ac Eglwys
Sant Padarn. Diolch yn fawr i Gareth
Jones am y syniad ac am gynnull pawb
ynghyd i ymarfer a dysgu'r gwaith ar
gyfer y noson.

Diolch hefyd i Eleri Foulkes am arwain y
côr, ac i aelodau'r band, Iwan Davies,
Dewi Jones, Aled Pritchard a Gareth ei
hun. Diolch hefyd i holl aelodau'r côr ac
i bawb arall a gymerodd ran. Roedd yn
amlwg fod pawb wedi mwynhau'n fawr
y cyfle i fod yn rhan o'r cyflwyniad.

Cyfansoddwyd *Gair yn Gnawd* gan
Linda Gittins, Penri Roberts a'r diweddar
Derec Williams yn 2011 ar gyfer aelodau
Ysgol Theatr Maldwyn. Cafodd y
gwaith ei ddarlledu ar Radio Cymru
ddydd Nadolig y flwyddyn honno, ac fe'i
cyhoeddwyd wedi hynny gan Gwmni
Sain. Diolch am y caniatad a gawsom
ganddynt i gyflwyno'r gwaith yn Capel
Coch. Diolch yn fawr iawn hefyd i Mr
Ken Jones a Phwyllgor Y Ganolfan yn
Llanberis am y rhodd ariannol a gafwyd i
at gost y llyfrau yr oedd rhaid eu cael er
mwyn dysgu'r gwaith.

Roedd elw'r noson ar gyfer ein hymdrech

yn Capel Coch at apêl 'Corwynt Cariad'
2017 Eglwys Bresbyteraidd Cymru a
Chymorth Cristnogol, i gefnogi pobl yn
Ynysoedd y Pilipinas. Llwyddwyd i godi
£620 at yr achos.

Os oeddech wedi prynu tocyn i weld *Gair
yn Gnawd* ond eich bod wedi methu â
dod wedi i ni newid y dyddiad, cofiwch
fod modd cael yr arian yn ôl. Cysylltwch
â'r Gweinidog ac anfon y tocyn neu'r
tocynnau mewn amlen i Cilfynydd,
Llanberis cyn diwedd yr wythnos hon.

Angladd

Dridiau cyn y Nadolig, Rhagfyr 22, bu
farw Mrs Elizabeth Catherine Hughes yn
ei chartref, Adwy'r Mynydd, Deiniolen,
yn 92 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â'i
mab Wyn, ei hŵyr Sion a'i briod Ffion,
ei gorwyrion Ari ac Oli, a'r teulu cyfan
yn eu colled.

Bu Mrs Beti Hughes a'i diweddar briod,
Eddie, yn gymorth ac yn gefn i Wyn a
Sion ar hyd y blynyddoedd, yn arbennig
felly wedi'r brofedigaeth fawr o golli ei
merch yng nghyfraith, Dilys yn 1989. Yr
oedd ei gofal yn fawr, ac nid oedd dim yn
ormod iddi ei wneud dros ei theulu.
Symudodd hi a'i phriod o Cryngae i
Adwy'r Mynydd, ac yr oedd wrth ei bodd
o weld Sion a Ffion yn ymgartrefu yn
Cryngae yn ddiweddarach. Yr oedd yn
wraig garedig a chymwynasgar. Roedd
yn mwynhau cwmni pobl, ac nid oedd
dim yn well ganddi na chael sgwrs â hwn
a'r llall, boed wyneb yn wyneb neu dros
y ffôn. Roedd yn wraig gref ac wedi arfer
â gwaith caled erioed. Roedd yn aelod o
eglwys Ebeneser, ac er na fedrodd ddod
i'r oedfaon y blynyddoedd diwethaf hyn
roedd yn ymddiddori yn ein gwaith.

Ni fu'r blynyddoedd diwethaf yn rhwydd
o gwbl gan i'w hiechyd dorri ac iddi gael
ei chaethiwo i'w chartref ac i'w chadair.
Bu'n wael iawn bron i saith mlynedd yn
ôl erbyn hyn, a threuliodd fisoedd yn yr

ysbyty. Am gyfnod roedd hi a'i phriod
yn yr ysbyty yr un pryd, ond cafodd y
ddau ddod adref i Adwy'r Mynydd, a
chael gofal eu teulu a'r gofalwyr. Bu
farw ei phriod bum mlynedd a hanner yn
ôl. Oherwydd y gofal ardderchog hwn,
cafodd Mrs Hughes hithau aros yn ei
chartref ei hun i'r diwedd, ac yr oedd yn
llawn canmoliaeth i bawb, yn cynnwys
teulu a chymdogion a ffrindiau.

Cynhaliwyd ei hangladd yn ei chartref ac
ym Mynwent Llanddeiniolen ddydd
Mercher, Ionawr 3 dan arweiniad y
Gweinidog.

Bore Coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri
Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r
gloch, ddydd Mawrth, Ionawr 9 er budd
Cronfa Adnoddau'r Capel.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Llanberis
yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos
Fawrth, Ionawr 9. Bydd y noson yng
ngofal Mr Eifion Roberts, Sw'n y Gwynt.

Diolch

Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd
ran yn y gwahanol oedfaon a gynhaliwyd
yn yr eglwys dros gyfnod y Nadolig.
Diolch yn arbennig i athrawon yr Ysgol
Sul a fu'n paratoi ar gyfer gwasanaethau
Nadolig y plant a'r ieuencid yng
Ngharmel, Bethlehem a Chapel Coch.
Roedd yn braf gweld pobl yn ymuno â ni
ar gyfer yr oedfaon hynny, a gobeithio
ein bod wedi llwyddo i gyflwyno iddynt t
hwy ac i ni ein hunain y neges fawr am
eni ein Gwaredwr Iesu.

Roedd y cyfan yn golygu gwaith mawr, a
gwerthfawrogn yr holl waith paratoi, o
lunio'r gwasanaethau a rhannu'r gwaith i
hyfforddi'r plant a darparu lluniaeth
wedi'r oedfaon.